Home Office

# Cod Ymarfer ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth

**Cyhoeddwyd gyntaf Mehefin 2013**
**Diwygiwyd Tachwedd 2021**

*Papur i ddod gerbron dau Dŷ'r Senedd am 40 diwrnod ac yn ystod y cyfnod hwnnw caiff y naill Dŷ neu'r llall benderfynu peidio â chyhoeddi'r Cod wedi'i ddiweddaru.*

# Cod Ymarfer ar gyfer Camerâu Gwyliadwriaeth

Cyflwynwyd i Senedd y DU Yn unol ag Adran 31(3) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012

© Hawlfraint y Goron 2021

Gallwch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio’r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives. gov.uk/doc/open-government-licence/ or e-mail: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn:

Cyfarwyddiaeth Data a Hunaniaeth,
Swyddfa Gartref,
2 Marsham Street,
Llundain, SW1P 4DF

ISBN: 978-1-5286-2983-6

E02688418 11/21

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Cyflwyniad a throsolwg .......... 5
Diffiniadau .......... 5
Cefndir .......... 6
Pwrpas y cod .......... 6
Cwmpas y gweithgarwch gwyliadwriaeth y mae'r cod hwn yn berthnasol iddo .......... 7
Effaith y Cod .......... 7
Trosolwg .......... 8
Egwyddorion Arweiniol .......... 9

# Cyflwyniad a throsolwg

## Diffiniadau

1 Yn y cod hwn:

- Ystyr "HRA 1998" yw Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Ystyr "RIPA 2000" yw Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
- Ystyr "EA 2010" yw Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Ystyr "PoFA 2012" yw Deddf Diogelu Rhyddidau 2012.
- Ystyr "IPA 2016" yw Deddf Pwerau Ymchwilio 2016.
- Ystyr "DPA 2018" yw Deddf Diogelu Data 2018.
- Ystyr "deddfwriaeth diogelu data" yw DPA 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.
- Ystyr "ECHR" yw'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- Ystyr "gwyliadwriaeth agored" yw unrhyw ddefnydd o wyliadwriaeth nad yw awdurdod amdani yn dod o dan RIPA 2000.
- Mae i "man cyhoeddus" yr ystyr a roddir gan Adran 16(b) o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 a chymerir ei fod yn cynnwys unrhyw briffordd ac unrhyw fan y mae gan y cyhoedd neu unrhyw ran o'r cyhoedd fynediad iddo ar yr adeg berthnasol, am dâl neu fel arall, fel hawl neu yn rhinwedd caniatâd datganedig neu oblygedig.
- Mae i "awdurdod perthnasol" yr ystyr a roddir gan Adran 33(5) o PoFA 2012.
- Mae i "systemau camerâu gwyliadwriaeth" yr ystyr a roddir gan Adran 29(6) o PoFA 2012 a chymerir ei fod yn cynnwys: (a) systemau teledu cylch cyfyng (CCTV) neu systemau adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig (ANPR); ( b ) unrhyw systemau eraill ar gyfer recordio neu wylio delweddau gweledol at ddibenion gwyliadwriaeth; ( c ) unrhyw systemau ar gyfer storio, derbyn, trosglwyddo, prosesu neu wirio'r delweddau neu'r wybodaeth a gafwyd gan (a) neu (b); (d) unrhyw systemau eraill sy'n gysylltiedig ag (a), (b) neu (c) neu sy'n gysylltiedig fel arall ag (a),[1].
- "Gweithredwr System" - person neu bersonau sy'n gwneud penderfyniad i ddefnyddio system camerâu gwyliadwriaeth, a/neu sy'n gyfrifol am ddiffinio ei ddiben, a/neu sy'n gyfrifol am reoli'r defnydd neu'r prosesu o ddelweddau neu wybodaeth arall a geir yn rhinwedd system o'r fath.
- "Defnyddiwr System" - person neu bersonau y gellir eu cyflogi neu eu contractio gan weithredwr y system sydd â mynediad at ddelweddau byw neu wedi'u recordio neu wybodaeth arall a gafwyd yn rhinwedd system o'r fath.
- "Comisiynydd" yw rôl y Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth, fel y nodir yn PoFA 2012. Er mwyn annog cydymffurfedd â'r cod hwn, swyddogaeth y Comisiynydd yw darparu gwybodaeth a chyngor ar yr holl faterion yn y cod hwn sy'n berthnasol i systemau camerâu gwyliadwriaeth.[2]

---

[1]Nid yw'n cynnwys unrhyw system gamerâu gyda chymeradwyaeth math perthnasol ar gyfer dyfais ragnodedig o dan Adran 20 o Ddeddf Troseddwyr Traffig Ffyrdd 1988 a ddefnyddir at ddibenion gorfodi yn unig, sydd yn dal ac yn cadw delwedd dim ond pan ganfyddir y drosedd berthnasol a heb allu i'w defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas gwyliadwriaeth. Er enghraifft, ar gyfer gorfodi troseddau goryrru.

[2]Mae swyddogaethau'r Comisiynydd wedi'u nodi yn Adran 34(2) o Ddeddf 2012: a) Annog cydymffurfedd â'r cod camerâu gwyliadwriaeth; b) Adolygu gweithredu'r cod, a c) Darparu cyngor am y cod.

## Cefndir

2 Cyhoeddir y cod ymarfer hwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Adrannau 29 i 31 o PoFA 2012. Mae’n darparu canllawiau ar y defnydd priodol ac effeithiol o systemau camerâu gwyliadwriaeth gan awdurdodau perthnasol (fel y’u diffinnir gan Adran 33(5) o PoFA 2012) yng Nghymru a Lloegr y mae’n rhaid iddynt, o dan Adran 33(1) o PoFA 2012,roi sylw i’r cod wrth arfer unrhyw swyddogaethau y mae’r cod yn ymwneud â hwy. Anogir gweithredwyr a defnyddwyr eraill o systemau camerâu gwyliadwriaeth yng Nghymru a Lloegr i fabwysiadu'r cod yn wirfoddol. Mae’n gam arwyddocaol yn y broses barhaus o gyflawni ymrwymiad y llywodraeth i ‘reoleiddio teledu cylch cyfyng ymhellach’ sydd, y mae'n credu ei bod yn dasg sy’n cael ei rheoli orau fesul cam ac yn raddol. Wrth i ddealltwriaeth a chymhwysiad o'r cod gynyddu, gall y llywodraeth ystyried cynnwys cyrff eraill fel awdurdodau perthnasol a fydd yn gorfod ystyried y cod.

## Pwrpas y cod

3 Mae'r cod hwn yn ymdrin â systemau technoleg sy'n gysylltiedig â chamerâu gwyliadwriaeth, neu sydd fel arall yn gysylltiedig â nhw. Mae technoleg camerâu gwyliadwriaeth fodern sy'n datblygu'n barhaus yn darparu potensial cynyddol ar gyfer casglu a defnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig. Mae'r datblygiadau hyn yn cynyddu'n sylweddol y gallu a'r capasiti i gasglu, storio, rhannu a dadansoddi delweddau, gwybodaeth a data. Mae datblygiadau mewn technoleg synhwyrydd a deallusrwydd artiffisial yn datblygu ar gyflymder cynyddol, yn ogystal â'r gallu i integreiddio'r technolegau hyn â chamerâu gwyliadwriaeth. Diben trosfwaol y cod hwn yw galluogi gweithredwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth i wneud defnydd cyfreithlon o’r dechnoleg sydd ar gael mewn ffordd y byddai’r cyhoedd yn ei disgwyl yn gywir a hyd at safon sy’n cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

4 Mae systemau camerâu gwyliadwriaeth yn cael eu defnyddio’n helaeth yng Nghymru a Lloegr, ac mae’r systemau hyn yn ffurfio rhan o dirwedd gymhleth o berchnogaeth, gweithrediad ac atebolrwydd. Lle maent yn cael eu defnyddio'n briodol, mae'r systemau hyn yn arfau gwerthfawr sy'n cyfrannu at ddiogelwch y cyhoedd ac at ddiogelu pobl ac eiddo.

5 Mae'r llywodraeth yn gwbl gefnogol i ddefnyddio systemau camerâu gwyliadwriaeth amlwg mewn man cyhoeddus pryd bynnag y bo'r defnydd hwnnw: er mwyn cyflawni nod cyfreithlon; yn angenrheidiol i ddiwallu angen dybryd; yn gymesur; effeithiol, ac yn cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol perthnasol. Y ffordd y mae technoleg yn cael ei defnyddio a allai fod yn ymwthiol yn hytrach na’r dechnoleg ei hun ac felly mae’n rhaid i benderfyniad i ddefnyddio unrhyw dechnoleg camerâu gwyliadwriaeth gael ei fynegi’n glir, ei ddogfennu ynghylch y diben a nodir ar gyfer unrhyw ddefnydd a bod yn dryloyw, gyda’r gymuned yn cael gwybod am natur y gweithgaredd gwyliadwriaeth sy’n cael ei gynnal a’r cyfiawnhad dros ei gynnal. Dylai'r datrysiad dylunio technegol ar gyfer defnydd o'r fath fod yn gymesur â'r pwrpas a nodwyd yn hytrach na chael ei ysgogi gan argaeledd cyllid neu arloesi technolegol. Dylai penderfyniadau ynghylch y dechnoleg fwyaf priodol bob amser ystyried y potensial i fodloni'r diben a nodwyd heb ymyrryd yn ddiangen â hawliau dynol; ac ni ddylai unrhyw ddefnydd barhau am gyfnod hwy nag sydd angen.

6 Mae’r cod hwn yn nodi safonau clir ac arfer da heb fod yn rhagnodol ynghylch y manylion ynghylch sut y mae’n rhaid dilyn yr egwyddorion arweiniol, nac ynghylch unrhyw fesurau gweithredol, technegol neu gymwyseddau penodol y dylai gweithredwr system eu dilyn. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'n rhwystro arloesi nac yn methu â chadw'r defnydd cyfredol mewn maes lle disgwylir i dechnoleg ac arfer proffesiynol barhau i esblygu.

## Cwmpas y gweithgarwch gwyliadwriaeth y mae'r cod hwn yn berthnasol iddo

7 Mae'r cod yn berthnasol i'r defnydd o systemau camerâu gwyliadwriaeth fel y'i diffinnir gan Adran 29(6) o PoFA 2012 sy'n gweithredu mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, ni waeth a oes unrhyw wylio neu recordio byw o ddelweddau neu wybodaeth neu ddata cysylltiedig. Nid yw gwyliadwriaeth gudd gan awdurdodau cyhoeddus (fel y’i diffinnir yn Rhan II o RIPA 2000) yn dod o dan y cod hwn ond caiff ei reoleiddio gan RIPA 2000.

## Effaith y Cod

8 Yn rhinwedd Adran 33(1) o PoFA 2012, mae awdurdod perthnasol o dan ddyletswydd i roi sylw i’r cod hwn pan fydd, wrth arfer unrhyw un o’i swyddogaethau, o’r farn y gallai defnyddio, neu barhau i ddefnyddio systemau camerâu gwyliadwriaeth amlwg yn y dyfodol i arsylwi mannau cyhoeddus fod yn briodol. Gall hyn gynnwys gweithredu neu ddefnyddio unrhyw systemau camerâu gwyliadwriaeth, neu ddefnyddio neu brosesu delweddau neu wybodaeth arall a geir yn rhinwedd systemau o'r fath. Mae “rhoi sylw” i ganllawiau statudol yn golygu y dylai awdurdodau perthnasol ystyried canllawiau statudol a phe byddent yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, byddai’n rhaid iddynt gael a rhoi rhesymau clir dros wneud hynny.[3]. Mae’n ddisgwyliad cyhoeddus dilys gan awdurdodau perthnasol eu bod yn gallu dangos sut y maent wedi rhoi sylw i’r cod hwn.

9 Mae’r ddyletswydd i roi sylw i’r cod hwn hefyd yn gymwys pan fydd awdurdod perthnasol yn defnyddio trydydd parti i gyflawni swyddogaethau perthnasol a gwmpesir gan y cod hwn a phan fydd yn gwneud trefniadau partneriaeth.

10 Nid yw’r ddyletswydd i roi sylw yn ymestyn i ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti neu bartneriaid oni bai eu bod nhw eu hunain yn awdurdod perthnasol. Rhaid i ddarpariaethau contractiol neu femoranda cyd-ddealltwriaeth y cytunir arnynt ar ôl i’r cod hwn ddod i rym gyda’r cyfryw ddarparwyr gwasanaeth trydydd parti neu bartneriaid sicrhau ei bod yn ofynnol yn ôl telerau’r contract i gontractwyr roi sylw i’r cod wrth arfer swyddogaethau y mae’r cod yn ymwneud ag ef.

11 Pan gaiff ei defnyddio fel rhan o drefniadau gorfodi traffig sifil, rhaid mai prif ddiben unrhyw system gamerâu gwyliadwriaeth yw gweithredu'r rhwydwaith ffyrdd yn ddiogel ac yn effeithlon drwy atal modurwyr rhag torri cyfyngiadau parcio neu draffig ffordd. Mae unrhyw gynnig i osod gofynion camerâu gwyliadwriaeth fel rhan o’r amodau sydd ynghlwm wrth drwydded neu dystysgrif yn debygol o achosi pryderon ynghylch cymesuredd dull o’r fath a bydd angen cyfiawnhad cryf priodol a rhaid ei adolygu’n

---

[3] R. (ar gais Llywodraethwyr London Oratory School ) v Dyfarnwr Ysgolion [2015]. Gweler hefyd R (Munjaz) v Mersey Care NHS Trust [2006]

rheolaidd. Rhaid i geisiadau sy'n ymwneud â safleoedd trwyddedig a cherbydau ystyried amgylchiadau'r cais hwnnw ac a yw gofyniad i gael system camerâu gwyliadwriaeth yn briodol yn yr achos hwnnw. Pan fydd unrhyw wrthdaro rhwng y cod hwn a’r ddeddfwriaeth sy’n berthnasol iswyddogaethau gorfodi sifil (gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed neu ganllawiau statudol a gyhoeddwyd) bydd y ddeddfwriaeth honno’n gymwys.

12 Nid yw methiant ar ran unrhyw berson i weithredu yn unol ag unrhyw un o ddarpariaethau’r cod hwn ynddo’i hun yn gwneud y person hwnnw yn agored i achos troseddol neu sifil. Fodd bynnag, mae’r cod hwn yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achosion troseddol neu sifil, a gall llys neu dribiwnlys gymryd i ystyriaeth fethiant gan awdurdod perthnasol i roi sylw i’r cod wrth benderfynu ar gwestiwn mewn unrhyw achos o’r fath.

13 Anogir gweithredwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth nad ydynt wedi'u diffinio fel awdurdodau perthnasol i fabwysiadu'r cod hwn a'i egwyddorion arweiniol yn wirfoddol a gwneud ymrwymiad cyhoeddus i wneud hynny. Nid oes rhaid i weithredwyr systemau o'r fath roi sylw i'r cod hwn ond fe'i hystyrir yn arfer gorau o hyd.

## Trosolwg

14 Y man cychwyn i weithredwr system gyflawni’r cydbwysedd mwyaf priodol rhwng diogelu’r cyhoedd a hawliau dynol unigol yw mabwysiadu un set o egwyddorion arweiniol sy’n berthnasol i bob system camerâu gwyliadwriaeth mewn mannau cyhoeddus. Mae dilyn yr egwyddorion arweiniol hyn yn galluogi gweithredwr system i sefydlu sail resymegol glir ar gyfer unrhyw leoliad camerâu gwyliadwriaeth amlwg mewn mannau cyhoeddus ac i redeg unrhyw system o’r fath yn effeithiol, sy’n helpu i sicrhau cydymffurfedd â dyletswyddau cyfreithiol eraill.

15 Er mwyn cyflawni hyn, mae'r cod yn nodi 12 egwyddor arweiniol a ddylai fod yn berthnasol i bob system camerâu gwyliadwriaeth mewn mannau cyhoeddus. Mae’r egwyddorion arweiniol hyn yn dwyn ynghyd arferion da a rhwymedigaethau cyfreithiol presennol i greu fframwaith rheoleiddio y gall gweithredwyr systemau a’r cyhoedd ei ddeall. Gall y Comisiynydd ddarparu gwybodaeth a chyngor ar sut y gellir gweithredu'r egwyddorion mewn sefyllfaoedd amrywiol.

16 Gellir cymhwyso’r egwyddorion arweiniol i amrywiadau niferus mewn amgylchiadau, gan gynnwys newidiadau mewn technoleg a dylent alluogi gweithredwr system i wneud penderfyniadau gwybodus a phriodol wrth ystyried naill ai datblygu neu ddefnyddio systemau camerâu gwyliadwriaeth neu ddefnyddio neu brosesu delweddau, gwybodaeth neu ddata. a gafwyd yn rhinwedd systemau o'r fath.  Fodd bynnag, anogir awdurdodau perthnasol i geisio cyngor gan y Comisiynydd a rheoleiddwyr eraill[4], cyn cynnal unrhyw dreialu neu beilot o dechnoleg newydd mewn man cyhoeddus.

[4] Lle mae hwn yn weithgaredd gwyddor fforensig y mae'r Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig yn ei oruchwylio, mae'r Cod Ymarfer Gwyddor Fforensig yn berthnasol.

# Egwyddorion Arweiniol

Dylai gweithredwyr systemau fabwysiadu'r 12 egwyddor arweiniol ddilynol:

1. Rhaid i'r defnydd o system camerâu gwyliadwriaeth bob amser fod at ddiben penodol sy'n ceisio cyflawni nod cyfreithlon ac sy'n angenrheidiol i ddiwallu angen dybryd a nodwyd.

2. Rhaid i ddefnyddiwr system camerâu gwyliadwriaeth ystyried ei effaith ar unigolion a'u preifatrwydd, ag adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod cyfiawnhad dros ddal ei defnyddio.

3. Rhaid bod cymaint o dryloywder â phosibl yn y defnydd o system camerâu gwyliadwriaeth, gan gynnwys pwynt cyswllt cyhoeddedig ar gyfer mynediad at wybodaeth a chwynion.

4. Rhaid sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am holl weithgareddau system camerâu gwyliadwriaeth gan gynnwys delweddau a gwybodaeth a gesglir, a ddelir ac a ddefnyddir.

5. Rhaid i reolau, polisïau a gweithdrefnau clir fod yn eu lle cyn defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth, a rhaid cyfathrebu’r rhain i bawb y mae angen iddynt gydymffurfio â nhw.

6. Ni ddylid storio mwy o ddelweddau a gwybodaeth na'r hyn sy'n gwbl ofynnol at y diben a nodir ar gyfer system camerâu gwyliadwriaeth, a dylid dileu delweddau a gwybodaeth o'r fath unwaith y bydd eu dibenion wedi'u cyflawni.

7. Dylid cyfyngu ar fynediad i ddelweddau a gwybodaeth a gedwir, a rhaid cael rheolau wedi’u diffinio’n glir ynghylch pwy all gael mynediad ac at ba ddiben y caniateir mynediad o’r fath; dim ond pan fo hynny'n angenrheidiol at ddiben o'r fath neu at ddibenion gorfodi'r gyfraith y dylid datgelu delweddau a gwybodaeth.

8. Dylai gweithredwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth ystyried unrhyw safonau gweithredu, technegol a chymhwysedd cymeradwy sy'n berthnasol i system a'i diben a'i gwaith i ddiwallu a chynnal y safonau hynny.

9. Dylai delweddau a gwybodaeth system camerâu gwyliadwriaeth fod yn destun mesurau diogelwch priodol i ddiogelu rhag mynediad a defnydd heb awdurdod.

10. Dylai fod mecanweithiau adolygu ac archwilio effeithiol i sicrhau y cydymffurfir yn ymarferol â gofynion cyfreithiol, polisïau a safonau, a dylid cyhoeddi adroddiadau rheolaidd.

11. Pan fydd defnyddio system gamerâu gwyliadwriaeth at ddiben cyflawni nod cyfreithlon, a bod angen dybryd i'w defnyddio, yna dylid ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith â'r nod o brosesu delweddau a gwybodaeth o werth tystiolaethol.

12. Dylai unrhyw wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi system camerâu gwyliadwriaeth sy'n cymharu yn erbyn cronfa ddata gyfeirio at ddibenion paru fod yn gywir ac yn gyfredol.

## Egwyddor 1 - Rhaid defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth bob amser at ddiben penodol sy'n ceisio cyflawni nod cyfreithlon ac sy'n angenrheidiol i ddiwallu angen dybryd a nodwyd.

1.1 Rhaid i systemau camerâu gwyliadwriaeth sy'n gweithredu mewn mannau cyhoeddus bob amser gael pwrpas neu ddibenion wedi'u diffinio'n glir er mwyn ceisio nod cyfreithlon a bod yn angenrheidiol i fynd i'r afael ag angen (neu anghenion) dybryd. Mae nod cyfreithlon ac angen dybryd o'r fath yn cynnwys diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd, lles economaidd y wlad, atal anhrefn neu droseddu, amddiffyn iechyd neu foesau, neu amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill. Dylai'r diben (neu'r dibenion) hwnnw allu trosi'n amcanion sydd wedi'u mynegi'n glir y gellir eu defnyddio i asesu'r gofyniad parhaus i weithredu neu ddefnyddio'r systemau ac unrhyw ddelweddau neu wybodaeth arall a geir.

1.2 Wrth asesu a fydd system yn diwallu ei hamcanion, ac wrth ddylunio'r datrysiad technolegol priodol i wneud hynny, dylai gweithredwr system bob amser ystyried gofynion defnyddiwr terfynol y delweddau, yn arbennig lle gellir nodweddu'r amcan fel atal, canfod ac ymchwilio i droseddu ac mae'n debygol mai'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol fydd y defnyddiwr terfynol.

1.3 Dim ond at y diben neu'r dibenion penodol y sefydlwyd i fynd i'r afael â nhw y dylid defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth mewn man cyhoeddus. Ni ddylid ei defnyddio at ddibenion eraill na fyddai wedi cyfiawnhau ei sefydlu yn y lle cyntaf. Dylai unrhyw estyniad arfaethedig i'r dibenion y sefydlwyd system ar eu cyfer ac y cesglir delweddau a gwybodaeth ar eu cyfer fod yn destun ymgynghoriad cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Wrth ddefnyddio systemau gwyliadwriaeth, dim ond os yw hyn yn gydnaws â'ch pwrpas gwreiddiol, os ydych yn cael caniatâd gan unigolion, neu os oes gennych rwymedigaeth neu swyddogaeth glir a nodir yn y gyfraith y gallwch ddefnyddio'r data personol at ddiben newydd.

## Egwyddor 2 - Rhaid i ddefnyddiwr system camerâu gwyliadwriaeth ystyried ei heffaith ar unigolion a'u preifatrwydd, ag adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod cyfiawnhad dros ei defnyddio o hyd.

2.1 Rhoddodd HRA 1998 effaith bellach yng nghyfraith y DU i'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae rhai o'r hawliau hyn yn absoliwt, tra bod eraill yn amodol neu'n gyfyngedig, sy'n golygu y caniateir i'r wladwriaeth ymyrryd â'r hawliau hynny os bodlonir amodau penodol a bod yr ymyrraeth yn gymesur. Gallai defnyddio camerâu gwyliadwriaeth mewn mannau cyhoeddus a safleoedd dethol effeithio ar hawliau dynol gan gynnwys:

- yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol (Erthygl 8);
- rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 9);
- rhyddid mynegiant (Erthygl 10);
- rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu (Erthygl 11); a
- amddiffyniad rhag gwahaniaethu (Erthygl 14).

2.2 Mae'r hawl i barch at fywyd preifat a theuluol a nodir yn Erthygl 8 o'r Confensiwn

Ewropeaidd ar Hawliau Dynol  yn cynnwys yn y gyfraith ryddid hirsefydlog a fwynheuir yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae gan bobl ddisgwyliadau amrywiol a goddrychol o breifatrwydd ac un o'r newidynnau yw'r un sefyllfaol. Dim ond i fynd i'r afael â phroblem arbennig o ddifrifol na ellir mynd i'r afael â hi drwy ddulliau llai ymwthiol y dylid gosod systemau camerâu gwyliadwriaeth mewn mannau cyhoeddus lle mae disgwyliad arbennig o uchel o breifatrwydd. Dylai defnydd o'r fath gael ei adolygu'n rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn angenrheidiol.

2.3 Mae unrhyw ddefnydd arfaethedig sydd hefyd yn cynnwys recordiad sain mewn man cyhoeddus yn debygol o fod angen cyfiawnhad cryf dros yr angen i sefydlu ei gymesuredd. Mae rhagdybiaeth gref na ddylid defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth i recordio sgyrsiau gan fod hyn yn ymwthiol iawn ac yn annhebygol o gael ei gyfiawnhau.

2.4 Mae angen i unrhyw ddefnydd o systemau adnabod wynebau neu systemau adnabod nodweddion biometrig eraill fod wedi'i gyfiawnhau'n glir ac yn gymesur o ran bodloni'r diben a nodwyd, a chael eu dilysu'n briodol. Dylai bob amser gynnwys ymyrraeth gan bobl cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n andwyol ar unigolyn.

2.5 Mae’r egwyddor hon yn arddangos yr angen i gynnal asesiad o’r effaith ar ddiogelu data (DPIA) pryd bynnag y mae datblygu neu adolygu system camerâu gwyliadwriaeth yn cael ei ystyried er mwyn sicrhau bod pwrpas y system yn gyfiawnadwy ac yn parhau i fod yn gyfiawnadwy, ac y cynhelir ymgynghoriad â’r rhai mwyaf tebygol o gael eu heffeithio, a bod yr effaith ar eu preifatrwydd yn cael ei asesu ac y gellir rhoi unrhyw fesurau diogelu priodol ar waith.  Pan fydd asesiad o'r fath yn dilyn proses ffurfiol wedi'i dogfennu, mae prosesau o'r fath yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud ar weithredu ac ar unrhyw fesurau angenrheidiol i ddiogelu rhag ymyrraeth anghymesur â phreifatrwydd.

2.6 Mae DPIA hefyd yn helpu i sicrhau cydymffurfedd â rhwymedigaethau fel rheolydd data o dan y ddeddfwriaeth diogelu data[5]. Mae canllawiau cynhwysfawr ar gynnal DPIA ar gael gan yr ICO. Yn achos awdurdod cyhoeddus, mae hyn hefyd yn dangos bod angen a graddau unrhyw ymyrraeth ag Erthygl 8 a hawliau unigol eraill wedi’u hystyried. Dylai awdurdodau perthnasol fodloni eu hunain nad yw system camerâu gwyliadwriaeth yn creu rhagfarn annerbyniol ar unrhyw sail neu nodwedd berthnasol o’r unigolion y gellid disgwyl yn rhesymol i’w delweddau gael eu dal ganddi a dylai gweithredwyr roi ystyriaeth benodol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[6].

[5]Erthygl 35 o’r GDPR ac Adran 64 o DPA 2018.

[6] a149 o EA 2010.

## Egwyddor 3 - Rhaid bod cymaint o dryloywder â phosibl yn y defnydd o system camerâu gwyliadwriaeth, gan gynnwys pwynt cyswllt cyhoeddedig ar gyfer mynediad at wybodaeth a chwynion.

3.1 Fel arfer dylai pobl mewn mannau cyhoeddus gael eu hysbysu pryd bynnag y maent yn cael eu monitro gan system camerâu gwyliadwriaeth, pwy sy'n gwneud y gweithgaredd ac at ba ddiben y mae'r wybodaeth gysylltiedig yn cael ei defnyddio. Mae hyn yn rhan annatodo wyliadwriaeth amlwg ac mae eisoes yn rhwymedigaeth gyfreithiol o dan DPA 2018. Ymhellach, mae tryloywder o'r fath yn cefnogi ac yn hysbysu'r cyhoedd ac yn rhan o atebolrwydd democrataidd ehangach yr awdurdodau perthnasol o ran gwyliadwriaeth.

3.2 Mae gwyliadwriaeth gyfrifol a chyfreithlon yn dibynnu ar dryloywder ac atebolrwydd ar ran gweithredwr system. Darparu gwybodaeth yw'r cam cyntaf mewn tryloywder ac mae hefyd yn fecanwaith allweddol o atebolrwydd. Wrth ddatblygu neu adolygu unrhyw system camerâu gwyliadwriaeth, bydd ymgynghori ac ymgysylltu cymesur â'r cyhoedd a phartneriaid (gan gynnwys yr heddlu) yn rhan bwysig o asesu a oes nod cyfreithlon ac angen dybryd, ac a yw'r system ei hun yn ymateb cymesur. Mae ymgynghori ac ymgysylltu o'r fath hefyd yn gyfle i nodi unrhyw bryderon ac addasu'r cynnig i gael y cydbwysedd mwyaf priodol rhwng diogelu'r cyhoedd a phreifatrwydd unigolion.

3.3 Mae hyn yn golygu sicrhau ymgysylltu effeithiol â chynrychiolwyr y rhai yr effeithir arnynt ac yn arbennig lle gallai'r mesur gael effaith anghymesur ar gymuned benodol. Mae'n bwysig bod ymgynghori'n ystyrlon ac yn cael ei gynnal ar adeg pan fo gobaith realistig o ddylanwadu ar ddatblygiadau.

3.4 Dylai gweithredwyr systemau fod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd ynghylch diben, gweithrediad ac effaith system. Mae hyn yn gyson ag ymrwymiad y llywodraeth i fwy o dryloywder ar ran cyrff cyhoeddus.

3.5 Yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol am ddiben datganedig system camerâu gwyliadwriaeth, mae arfer da yn cynnwys ystyried cyhoeddi gwybodaeth am y gweithdrefnau a'r mesurau diogelu sydd ar waith, asesiadau effaith a gynhaliwyd, ystadegau perfformiad a gwybodaeth reoli arall ac unrhyw adolygiadau neu archwiliadau a gynhelir. Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried cynnwys y wybodaeth hon fel rhan o'u cynlluniau cyhoeddi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

3.6 Nid yw hyn yn awgrymu y dylid datgelu union leoliad camerâu gwyliadwriaeth bob amser os byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i'r diben cyfiawn a nodir o dan Egwyddor 1.

3.7 Dylai fod gan weithredwr system weithdrefn effeithiol ar gyfer ymdrin â phryderon a chwynion gan unigolion a sefydliadau ynghylch y defnydd o systemau camerâu gwyliadwriaeth. Dylai gwybodaeth am weithdrefnau cwyno fod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. Lle gwneir cwyn ac nad yw'r achwynydd yn fodlon ar yr ymateb, dylai fod mecanwaith adolygu mewnol ar waith sy'n defnyddio person nad oedd yn ymwneud â'r gwaith o ymdrin â'r gŵyn gychwynnol. Rhaid ymdrin â chwynion mewn modd amserol

a rhoi syniad i achwynwyr ynghylch faint o amser y gall ei gymryd i ymdrin â chwyn ar y dechrau.

3.8 Dylid darparu gwybodaeth i'r achwynydd am unrhyw gyrff rheoleiddio a allai fod ag awdurdodaeth yn yr achos hwnnw megis y Comisiynydd Gwybodaeth neu'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio.

3.9 Pan ddaw cwyn neu wybodaeth arall i sylw awdurdod perthnasol neu weithredwr system arall sy'n dynodi y gallai troseddau fod wedi'u cyflawni mewn perthynas â system camerâu gwyliadwriaeth, yna dylid cyfeirio'r materion hyn at y corff priodol, megis yr heddlu, Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu neu'r ICO ar gyfer unrhyw droseddau o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

3.10 Yn unol ag ymrwymiad y llywodraeth i fwy o dryloywder ar ran awdurdodau cyhoeddus, dylai gweithredwr system gyhoeddi gwybodaeth ystadegol am nifer a natur y cwynion a dderbyniwyd a sut y mae'r rhain wedi'u datrys ar sylfaen flynyddol o leiaf.

3.11 Mae ymrwymiad pellach y llywodraeth i 'ddata agored' yn golygu y dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar ffurf y gellir ei hailddefnyddio fel y gall eraill ddatblygu gwasanaethau yn seiliedig ar y data hwn. Byddai hyn yn ymestyn i wybodaeth am systemau camerâu gwyliadwriaeth.

3.12 Nid oes gan y Comisiynydd unrhyw rôl statudol mewn perthynas ag ymchwilio i gŵynion a'u datrys. Fodd bynnag, dylai gweithredwyr systemau fod yn barod i rannu gwybodaeth am natur cwynion gyda'r Comisiynydd ar sail ad hoc, a lle bo'n briodol, yn ddienw i gynorthwyo ag unrhyw adolygiad o fodd weithredu'r cod hwn.

## Egwyddor 4 - Rhaid sicrhau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am holl weithgareddau system camerâu gwyliadwriaeth gan gynnwys delweddau a gwybodaeth a gesglir, a gedwir ac a ddefnyddir.

4.1 Dylai pobl sy'n ystyried yr angen i ddatblygu system camerâu gwyliadwriaeth roi ystyriaeth ddyledus i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol. Rhaid cael cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir am system o'r fath. Mae'n arfer da cael unigolyn dynodedig i fod yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu system gamerâu gwyliadwriaeth, am sicrhau bod ymgynghori priodol a thryloywder ynghylch ei ddiben, ei ddefnydd ac am adolygu pa mor effeithiol y mae'n cyflawni ei ddiben.

4.2 Pan yw system yn cael ei pherchnogi neu ei gweithredu ar y cyd, dylai'r partneriaid gytuno ar y trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd a'u dogfennu fel bod gan bob un o'r sefydliadau partner gyfrifoldebau clir, ag eglurder ynghylch rhwymedigaethau a disgwyliadau a gweithdrefnau ar gyfer datrys unrhyw wahaniaethau rhwng y partïon neu newid mewn amgylchiadau . Mae canllawiau pellach ar hyn ar gael gan yr ICO.

4.3 Gellir defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth at fwy nag un diben cyfreithlon. Er enghraifft, efallai mai un diben fyddai atal a chanfod troseddau, a gallai rheoli traffig fod un arall. Gall y cyfrifoldeb am bob diben fod o fewn gwahanol elfennau o strwythur rheoli gweithredwr system ond y gweithredwr sy'n atebol yn gyffredinol am

sicrhau trefniadau llywodraethu effeithiol a hwyluso cydweithio effeithiol, adolygu ac archwilio, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â’r cyhoedd.

## Egwyddor 5 - Rhaid i reolau, polisïau a gweithdrefnau clir fod yn eu lle cyn defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth, a rhaid cyfathrebu’r rhain i bawb sydd angen cydymffurfio â nhw.

5.1 Mae buddion sylweddol i gael polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer gweithredu unrhyw system camerâu gwyliadwriaeth. Lle mae’r gweithredwr yn awdurdod perthnasol, bydd ei bolisïau cyhoeddedig yn rhan o’r corff cyfreithiol y mae’n gweithredu oddi tano. Bydd cyhoeddi ac adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn helpu i reoli a defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth yn effeithiol ac yn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sy'n effeithio ar ddefnyddio system o'r fath.

5.2 Anogir gweithredwr system camerâu gwyliadwriaeth i ddilyn system rheoli ansawdd fel cam mawr ymlaen wrth reoli a gwella eu prosesau allweddol. Lle gwneir hyn trwy ardystio yn ôl safon rheoli ansawdd, gall ddarparu amgylchedd gweithredu cadarn gyda'r fantais ychwanegol o sicrwydd i'r cyhoedd bod y system yn cael ei gweithredu'n gyfrifol ac yn effeithiol, a bod y tebygolrwydd o dorri preifatrwydd unigol yn llawer llai.

5.3 Mae'n arfer da y dylid cyfathrebu rheolau, polisïau a gweithdrefnau fel rhan o'r broses gynefino a hyfforddiant proffesiynol parhaus a datblygiad pob defnyddiwr system. Dylai hyn gynyddu’r tebygolrwydd o gydymffurfio drwy sicrhau bod defnyddwyr system yn gymwys, yn meddu ar y sgiliau a’r hyfforddiant perthnasol ar yr ystyriaethau gweithredol, technegol a phreifatrwydd a’u bod yn deall y polisïau a’r gweithdrefnau’n llawn. Mae’n ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth diogelu data bod sefydliadau’n sicrhau dibynadwyedd staff sy’n cael mynediad at ddata personol, gan gynnwys delweddau a gwybodaeth a geir drwy systemau camerâu gwyliadwriaeth.

5.4 Lle bynnag y mae safonau galwedigaethol ar gael sy'n berthnasol i rolau a chyfrifoldebau defnyddwyr eu system, dylai gweithredwr systemau ystyried y buddion ac unrhyw ofynion statudol sy'n gysylltiedig â safonau galwedigaethol o'r fath.

5.5 Bydd y Comisiynydd yn rhoi cyngor a chanllawiau ar safonau rheoli ansawdd a cymhwysedd galwedigaethol perthnasol.

5.6 Lle bynnag y mae system gamerâu gwyliadwriaeth yn cwmpasu mannau cyhoeddus, dylai gweithredwr system fod yn ymwybodol o ofynion trwyddedu statudol Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001. O dan y gofynion hyn, mae Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) yn gyfrifol am drwyddedu unigolion sy'n gweithio mewn sectorau penodol o'r diwydiant diogelwch preifat. Mae angen trwydded gwyliadwriaeth mannau cyhoeddus (CCTV) pan gyflenwir gweithwyr o dan gontract am wasanaethau hyd yn oed pan ddarperir y gwasanaeth hwnnw gan awdurdod perthnasol.Gall yr SIA roi rhagor o wybodaeth am ofynion trwyddedu.

5.7 Mae trwyddedu SIA yn dibynnu ar dystiolaeth bod unigolyn yn addas a phriodol i gyflawni'r rôl, a thystiolaeth o'i allu i gyflawni rôl yn effeithiol ac yn ddiogel gyda'r

sgiliau a'r wybodaeth gywir. Mae amrywiaeth o gymwysterau perthnasol ar gael,a darperir hyfforddiant i ennill y rhain gan ystod o wahanol ddarparwyr achrededig.

5.8 Hyd yn oed lle nad oes gofyniad trwyddedu statudol, mae'n arfer da i weithredwr system sicrhau bod gan bob aelod o staff sydd naill ai'n rheoli neu'n defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth, neu'n defnyddio neu'n prosesu'r delweddau a'r wybodaeth a geir yn rhinwedd systemau o'r fath, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

## Egwyddor 6 - Ni ddylid storio mwy o ddelweddau a gwybodaeth na'r hyn sy'n gwbl ofynnol at y diben a nodir ar gyfer system camerâu gwyliadwriaeth, a dylid dileu delweddau a gwybodaeth o'r fath unwaith y bydd eu dibenion wedi'u cyflawni.

6.1 Ni ddylai delweddau a gwybodaeth a geir o system camerâu gwyliadwriaeth gael eu cadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r diben y'u cafwyd ar ei gyfer yn y lle cyntaf. Mae hyn hefyd yn ofyniad deddfwriaeth diogelu data ac mae canllawiau pellach ar hyn ar gael gan yr ICO.

6.2 Bydd y cyfnod cadw ar gyfer systemau camerâu gwyliadwriaeth gwahanol yn amrywio oherwydd pwrpas y system ac am faint o amser y mae angen cadw delweddau a gwybodaeth arall er mwyn cyflawni ei diben bwriadedig.. Nid yw'n bosibl, felly, bod yn rhagnodol ynghylch cyfnodau hwyaf neu leiaf.Dylai gweithredwr system adolygu cyfnodau cadw cychwynnol a'u hailosod yng ngoleuni profiad. Dylid defnyddio dull cymesur bob amser i lywio cyfnodau cadw, ac ni ddylai'r rhain fod yn seiliedig ar achosion eithriadol anaml.

6.3 Er na ddylid cadw delweddau a gwybodaeth arall am fwy o amser nag sydd ei angen i ddiwallu'r dibenion ar gyfer eu cofnodi, ar adegau, efallai y bydd angen i weithredwr system gadw delweddau am gyfnod hwy, er enghraifft pan fydd corff gorfodi'r gyfraith yn ymchwilio i drosedd, er mwyn rhoi cyfle iddynt weld y delweddau fel rhan o ymchwiliad gweithredol.

## Egwyddor 7 - Dylid cyfyngu ar fynediad i ddelweddau a gwybodaeth a gedwir, a rhaid cael rheolau wedi'u diffinio'n glir ynghylch pwy all gael mynediad ac i ba ddiben y caniateir mynediad o'r fath; dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol at ddiben o'r fath neu at ddibenion gorfodi'r gyfraith y dylid datgelu delweddau a gwybodaeth.

7.1 Rhaid i'r broses o rannu delweddau a gwybodaeth arall a geir o system camerâu gwyliadwriaeth fod yn gyson â'r diben a nodwyd y sefydlwyd y system ar ei gyfer. Gallai fod yn briodol datgelu delweddau neu wybodaeth pan fo deddfwriaeth diogelu data yn gwneud eithriadau sy'n caniatáu hynny, ar yr amod bod gofynion cymwys y ddeddfwriaeth diogelu data yn cael eu diwallu, neu lle caniateir hynny gan ddeddfwriaeth arall megis Deddf Gwrthderfysgaeth 2008. Mae'r esemptiadau hyn yn cynnwys lle byddai peidio â datgelu yn debygol o niweidio atal a chanfod troseddu, ac at ddibenion diogelwch gwladol. Pan fydd gweithredwr system yn gwrthod cais am ddatgeliad gan asiantaeth gorfodi'r gyfraithmae darpariaeth o dan Adran 9 ac Atodlen

1 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i geisio gorchymyn cyflwyno gan ynad.

7.2 Efallai y bydd achlysuron cyfyngedig eraill pan fydd datgelu delweddau i drydydd parti arall, megis person y mae ei eiddo wedi'i ddifrodi, yn briodol. Dylid bod yn ofalus wrth ymdrin â cheisiadau o'r fath am ddelweddau neu wybodaeth ac yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gan y gallai datgeliad eang fod yn ymyrraeth annheg i breifatrwydd yr unigolion dan sylw.

7.3 Dylai fod gan weithredwr system bolisïau a chanllawiau clir yn eu lle i ddelio ag unrhyw geisiadau a dderbynnir. Yn arbennig:

- Dylai fod trefniadau ar waith i gyfyngu ar ddatgelu delweddau mewn ffordd sy'n gyson â'r diben ar gyfer sefydlu'r system.
- Pan fydd delweddau'n cael eu datgelu, dylid ystyried a oes angen cuddio delweddau a allai adnabod unigolion er mwyn atal adnabyddiaeth ddiangen.
- Dylai fod gan y rhai a all ymdrin â cheisiadau am ddatgeliad ganllawiau clir ar yr amgylchiadau lle bydd datgeliad yn briodol.
- Dylai'r dull o ddatgelu delweddau fod yn ddiogel i sicrhau y'i gwelir gan y derbynnydd a fwriadwyd yn unig.
- Dylid cadw cofnodion priodol.

7.4 Dylai gweithredwr system wneud dyfarniadau ynghylch datgelu. Mae ganddynt ddisgresiwn i wrthod unrhyw gais am wybodaeth oni bai bod rhwymedigaeth gyfreithiol drech megis gorchymyn llys neu hawliau mynediad at wybodaeth. Unwaith y byddant wedi datgelu delwedd i gorff arall, megis yr heddlu, yna daw'r derbynnydd yn gyfrifol am ei gopi o'r ddelwedd honno. Os yw'r derbynnydd yn awdurdod perthnasol, yna cyfrifoldeb y derbynnydd yw rhoi sylw i'r cod ymarfer hwn a chydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill megis deddfwriaeth diogelu data ac HRA 1998 mewn perthynas ag unrhyw ddatgeliadau pellach.

7.5 Gall unigolion ofyn am ddelweddau a gwybodaeth amdanynt eu hunain drwy gais gwrthrych am wybodaeth o dan y rhan berthnasol o'r ddeddfwriaeth diogelu data. Mae canllawiau manwl ar hyn a materion megis pryd i atal neu guddio delweddau o drydydd partïon a ddaliwyd mewn delweddau wedi'u cynnwys yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr ICO.

7.6 Gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth gan gyrff cyhoeddus o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r ICO hefyd yn cynhyrchu canllawiau manwl ar y rhwymedigaethau hyn.

## Egwyddor 8 - Dylai gweithredwyr systemau camerâu gwyliadwriaeth ystyried unrhyw safonau gweithredu, technegol a chymhwysedd cymeradwy sy'n berthnasol i system a'i diben a gweithio i fodloni a chynnal y safonau hynny.

8.1 Gall safonau cymeradwy fod yn berthnasol i ymarferoldeb y system, gosod a gweithredu a chynnal a chadw system camerâu gwyliadwriaeth. Mae'r rhain fel arfer yn canolbwyntio ar osodiadau teledu cylch cyfyng nodweddiadol, ond mae'n bosibl y bydd safonau ychwanegolyn berthnasol lle mae gan y system allu uwch penodol

megis ANPR, systemau dadansoddi fideo neu adnabod wynebau, neu lle mae senario defnydd penodol, er enghraifft defnyddio recordwyr fideo wedi'u gwisgo ar y corff.

8.2 Mae safonau cymeradwy ar gael i lywio arfer da ar gyfer gweithredu systemau camerâu gwyliadwriaeth, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd yn ddomestig gan y Sefydliad Safonau Prydeinig, ar lefel Ewropeaidd gan y Comité Européen de Normalization Électrotechnique neu ar lefel fyd-eang gan y Comisiwn Electrotechnegol Rhyngwladol.

8.3 Dylai gweithredwr system ystyried unrhyw safonau cymeradwy sy’n ymddangos yn berthnasol i gymhwyso technoleg yn effeithiol i ddiwallu diben ei system a chymryd camau i sicrhau ardystiad yn ôl y safonau hynny. Mae ardystiad o'r fath yn debygol o gynnwys asesiad gan gorff ardystio annibynnol[7]. Mae hyn yn cyflwyno manteision i weithredwr system gan ei bod yn debygol y gellir sicrhau effeithiolrwydd system ac o ran arddangos i'r cyhoedd bod safonau addas yn eu lle ac yn cael eu dilyn.

## Egwyddor 9 - Dylai delweddau a gwybodaeth systemau camerâu gwyliadwriaeth fod yn destun mesurau diogelwch priodol i ddiogelu rhag mynediad a defnydd anawdurdodedig.

9.1 Mae rhoi mesurau diogelwch effeithiol ar waith yn helpu i sicrhau cywirdeb delweddau a gwybodaeth pe byddai angen eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol. Mae hyn hefyd yn helpu i feithrin hyder y cyhoedd mewn gweithredwyr systemau a sut maent yn ymdrin â delweddau a gwybodaeth.

9.2 O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae'n rhaid i'r rhai sy'n gweithredu systemau camerâu gwyliadwriaeth neu sy'n defnyddio neu'n prosesu delweddau a gwybodaeth a geir gan systemau o'r fath fod â pholisi wedi'i ddiffinio'n glir i reoli sut mae delweddau a gwybodaeth yn cael eu storio a phwy sydd â mynediad iddynt. Dylai’r defnydd neu’r prosesu o ddelweddau a gwybodaeth fod yn gyson â’r diben ar gyfer eu defnyddio, a dim ond at y diben a nodir y’u casglwyd amdano y dylid defnyddio delweddau.

9.3 Mae diogelwch yn ymestyn i ddiogelwch technegol a threfniadol, gan gynnwys seiberddiogelwch a diogelwch corfforol. Mae angen cael mesurau yn eu lle i sicrhau diogelwch priodol y data a gwarchod rhag defnydd, mynediad neu ddatgeliad anawdurdodedig. Mae'r ICO yn cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar gyflawni hyn yn ymarferol.

---

[7] Er enghraifft, cynllun ardystio trydydd parti’r Comisiynydd. Mae rhestr gyfredol o safonau a argymhellir i'w hystyried gan berchennog a gweithredwr system yn cael ei chynnal a'i rhoi ar gael gan y Comisiynydd. Bydd rhestr o'r fath yn rhoi canllawiau manwl ar safonau addas a'r cyrff a all achredu perfformiad yn ôl safonau o'r fath.

## Egwyddor 10 - Dylid cael mecanweithiau adolygu ac archwilio effeithiol i sicrhau y cydymffurfir yn ymarferol â gofynion cyfreithiol, polisïau a safonau, a dylid cyhoeddi adroddiadau rheolaidd.

10.1 Dylai gweithredwr system, fel mater o lywodraethu da, adolygu ac archwilio’r defnydd parhaus o system camerâu gwyliadwriaeth yn rheolaidd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ynghyd â pholisïau perthnasol i sicrhau bod ei system yn parhau i fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol o ran bodloni ei bwrpas(au) a nodwyd.

10.2 Fel rhan o'r adolygiad rheolaidd o angenrheidrwydd, cymesuredd ac effeithiolrwydd system camerâu gwyliadwriaeth, dylai gweithredwr system asesu a yw lleoliad camerâu yn parhau i fod yn gyfiawn er mwyn diwallu'r diben a nodwyd ac a oes achos dros symud neu adleoli.

10.3 Wrth adolygu’r defnydd parhaus o system camerâu gwyliadwriaeth, dylai gweithredwr system ystyried cynnal gwerthusiad er mwyn gallu cymharu ag ymyriadau amgen sydd â llai o risg o oresgyn preifatrwydd unigol, a modelau gweithredu gwahanol (er enghraifft, er mwyn sefydlu unrhyw ofyniad am fonitro 24 awr). Wrth wneud hynny, dylid ystyried asesiad o'r gofynion am adnoddau yn y dyfodol ar gyfer talu chostau rhedeg, gan gynnwys staffio, cynnal a chadw ac atgyweirio.

10.4 Dylai gweithredwr system sicrhau bod crynodeb o adolygiad o’r fath ar gael i’r cyhoedd fel rhan o’r tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer defnydd a chanlyniadau ei gweithredu.

## Egwyddor 11 - Pan fydd defnyddio system camerâu gwyliadwriaeth yn ceisio cyflawni nod cyfreithlon, a bod angen dybryd i’w defnyddio, dylid ei defnyddio wedyn yn y ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi diogelwch y cyhoedd a gorfodi’r gyfraith â’r nod o brosesu delweddau a gwybodaeth o werth tystiolaethol.

11.1 Bydd effeithiolrwydd system gamerâu gwyliadwriaeth yn dibynnu ar ei gallu i ddal, prosesu, dadansoddi a storio delweddau a gwybodaeth o ansawdd sy'n addas i'w diben a fwriadwyd. Lle bynnag y defnyddir y system at ddiben gorfodi’r gyfraith, rhaid iddi allu darparu delweddau a gwybodaeth sydd o werth tystiolaethol i’r system cyfiawnder troseddol drwy brosesau, gweithdrefnau a hyfforddiant i ddefnyddwyr y system. Fel arall, ni fydd defnyddiwr terfynol y delweddau, sy’n debygol o fod yn heddlu neu’n asiantaeth gorfodi’r gyfraith, yn gallu chwarae eu rhan yn effeithiol i gyflawni diben bwriadedig y system – gall fod yn anodd i weithredwr ddadlau mai eu pwrpas yw canfod troseddu os yw ansawdd y delweddau a gynhyrchir yn annigonol i gefnogi'r pwrpas hwnnw.

11.2 Mae'n bwysig bod mesurau diogelu effeithiol ar waith i sicrhau cywirdeb fforensig delweddau a gwybodaeth wedi'u recordio a'u defnyddioldeb at y diben y bwriedir ei defnyddio ar ei gyfer. Dylid storio deunydd wedi’i recordio mewn ffordd sy’n cynnal cywirdeb y ddelwedd a’r wybodaeth, gan roi pwysau arbennig ar sicrhau bod meta-ddata (e.e. amser, dyddiad a lleoliad) yn cael eu recordio’n ddibynadwy, ac nad yw cywasgu data yn lleihau ei ansawdd i raddau nad yw bellach yn addas ar gyfer ei ddiben bwriadedig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod hawliau unigolion a recordir gan system camerâu gwyliadwriaeth yn cael eu hamddiffyn ac y gellir defnyddio'r

deunydd fel tystiolaeth yn y llys. I wneud hyn, bydd cyfrwng storio'r delweddau a'r wybodaeth yn bwysig, a rhaid cyfyngu mynediad. Dylid cadw cofnod fel trywydd archwilio o sut yr ymdrinnir â delweddau a gwybodaeth os ydynt yn debygol o gael eu defnyddio fel arddangosion at ddibenion achos troseddol yn y llys. Unwaith nad oes bellach reswm y gellir ei gyfiawnhau'n glir dros gadw'r delweddau a'r wybodaeth sydd wedi'u recordio, dylid eu dileu.

11.3 Mae'n bwysig bod modd rhannu delweddau digidol a gwybodaeth gysylltiedig arall yn rhwydd yn yr un modd gydag asiantaethau priodol os rhagwelir hyn wrth sefydlu system. Os na ellir cyflawni'r rhyngweithredu hwn yn rhwydd, gallai danseilio pwrpas defnyddio'r system .

11.4 Mae’n hanfodol felly bod unrhyw ddelweddau a gwybodaeth ddigidol sy’n debygol o gael eu rhannu’n gyfreithlon ag asiantaethau eraill a’r system cyfiawnder troseddol mewn fformat data sy’n rhyngweithredol ac y gellir ei allforio’n rhwydd, ac yna’n cael ei storio a’i dadansoddi heb golli cywirdeb fforensig. Yn arbennig:

- Dylai defnyddiwr system allu allforio delweddau a gwybodaeth o system camerâu gwyliadwriaeth pan ofynnir amdano.
- Dylai fod yn bosibl allforio delweddau a gwybodaeth heb dorri ar draws gweithrediad y system.
- Dylai'r delweddau a'r wybodaeth sy'n cael eu hallforio fod mewn fformat sy'n rhyngweithredol ac y gellir ei gyrchu a'i ailchwarae'n rhwydd.

## Egwyddor 12 - Dylai unrhyw wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi system camerâu gwyliadwriaeth sy'n cymharu â chronfa ddata gyfeirio at ddibenion paru fod yn gywir ac yn gyfredol.

12.1 Ni ddylai unrhyw ddefnydd o dechnolegau megis ANPR neu systemau adnabod wynebau a allai ddibynnu ar gywirdeb gwybodaeth a gynhyrchir mewn mannau eraill megis cronfeydd data a ddarperir gan eraill gael ei gyflwyno heb asesu rheolaidd i sicrhau bod y data sylfaenol yn addas i’r diben.

12.2 Dylai fod gan weithredwr system bolisi clir i bennu cynnwys rhif cofrestru cerbyd neu fanylion unigolyn hysbys ar y gronfa ddata gyfeirio sy’n gysylltiedig â thechnoleg o’r fath. Dylai gweithredwr system sicrhau na chaiff data cyfeirio eu cadw am fwy o amser nag sydd ei angen i gyflawni’r diben y’i ychwanegwyd at gronfa ddata ar ei gyfer yn wreiddiol.

12.3 Wrth ddefnyddio system camerâu gwyliadwriaeth at ddibenion adnabod wynebau byw (LFR) i ddod o hyd i bobl ar restr wylio, dylai prif swyddogion yr heddlu:

- nodi a chyhoeddi (a) y categorïau o bobl sydd i’w cynnwys ar restr wylio a (b) y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pryd a ble i ddefnyddio LFR, gan roi sylw i’r angen i wneud hynny at ddiben plismona cyfreithlon yn unig;
- sicrhau bod unrhyw ddata biometrig nad yw'n cynhyrchu rhybudd yn erbyn rhywun ar y rhestr wylio gan y system LFR yn cael ei ddileu ar unwaith neu bron yn syth;
- rhoi sylw i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn arbennig gan ystyried unrhyw effaith andwyol bosibl y gallai algorithm LFR ei chael ar aelodau grwpiau gwarchodedig;

- sefydlu proses awdurdodi ar gyfer defnyddio LFR a nodi'r meini prawf ar gyfer rhoi'r grym i swyddogion roi awdurdodiadau i ddefnyddio LFR.

Manylion cyhoeddi